**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 11 Awst 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | K M Griffiths | Y V Jardine |
| S M Jones | W G Lewis | D W W Thomas |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Elliott King | Aelod y Cabinet –Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Francis | Prif Swyddog Gwasanaethau Comisiynu a Gofal |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Damian Rees | Prif Swyddog Diogelu a Pherfformiad |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, M Durke a/ac E T Kirchner
Hefyd yn bresennol: Julie Davies

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau Gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

5 **Monitro Perfformiad**

Rhoddodd Damian Rees, Prif Swyddog Diogelu a Pherfformiad y diweddaraf i'r panel.

Pwyntiau i'w trafod:

- Newidiodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i system wybodaeth newydd ac nid yw'r data'n gyfredol ar hyn o bryd.
- Cododd y panel fater cysondeb gweithwyr cymdeithasol i achosion a holodd a oes llawer o newid. Hysbyswyd eu bod mor gyson â phosibl o ystyried pwysau staff.
- Teimlai'r panel fod nifer y bobl sy'n ailgofrestru'n ymddangos yn uchel ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn edrych ar hyn yn fanylach ac yn gobeithio tynnu rhai themâu cyffredin at ei gilydd.
- Holodd y panel pam y mae'r ffigurau'n dangos bod 31% o ymweliadau statudol yn hwyr. Cadarnhaodd swyddogion fod hwn yn fater cofnodi. Ar hyn o bryd mae'r staff yn cofnodi ac yn olrhain data â llaw ac mae rheolwyr yn sicrhau bod pob ymweliad yn cael ei wneud.
- Holodd y panel sut mae newid i system wybodaeth newydd wedi effeithio ar allu'r awdurdod i redeg y gwasanaeth fel y dymunant. Hysbyswyd y panel ei fod wedi cael effaith enfawr ond disgwylid hyn gan ei fod yn gweithredu'n gwbl wahanol i hen system PARIS. Bydd y gwasanaeth yn cyfarwyddo'n gyflym â'r ymagwedd newydd Mae'n rhoi baich ychwanegol ar weithwyr cymdeithasol.
- Annog y panel i gadw pwysau ymlaen. Os yw aelodau'r panel am gael rhagor o wybodaeth, lle mae bylchau yn yr adroddiad, dylent ofyn i swyddogion am adborth o'u gweithgarwch archwilio.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr fod rhai pethau da yn yr adroddiad a rhoddodd enghreifftiau. Ar gyfer y boblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal, mae gostyngiad parhaus dros nifer o fisoedd. Rydym hefyd yn dechrau gweld nifer y plant sy'n destun cynlluniau amddiffyn plant yn gostwng.
- Gofynnodd y panel i'r Cyfarwyddwr drosglwyddo'i ganmoliaeth i'r adran am y ffordd y mae'r ffigurau cyffredinol yn gwella.

6 **Diweddariad Llafar - Adroddiad Llawn Ymweliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Rhoddwyd adborth i'r panel gan David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Pwyntiau i'w trafod:

- Llythyr drafft a dderbyniwyd gan yr awdurdod. Bydd yn derbyn y fersiwn derfynol maes o law. Caiff hwn ei rannu â'r panel ynghyd â'r adroddiad thematig llawn yn ystod y misoedd nesaf.
- Mae adborth ysgrifenedig gan arolygwyr yn gyson ag adborth llafar ganddynt yn dilyn yr arolygiad.
- Mae'r adborth yn gwbl gyson â hunanasesiad yr awdurdod ei hun. Mae hyn yn gadarnhaol iawn.
- Roedd y Cyfarwyddwr o'r farn y gallai fod materion y mae'r panel am eu codi ynghylch y cynllun gwaith wrth symud ymlaen.

- Roedd yr arolygwyr wedi cael problemau wrth gyrchu gwybodaeth ar y system newydd eu hunain. Daeth yr adran o hyd i ffyrdd eraill o ddarparu'r wybodaeth fel y gallent gynnal y gwiriadau'n iawn.
- Teimlai'r panel fod yr adborth yn gadarnhaol iawn a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr fynd yn ôl at y staff i fynegi gwerthfawrogiad y panel am eu holl waith a'u hymdrech.

7 **Canlyniad Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Ty Nant**

Rhoddodd Chris Francis, Prif Swyddog y Gwasanaethau Comisiynu a Gofal yr wybodaeth ddiweddaraf i'r panel am yr arolygiad.

Pwyntiau i'w trafod:

- Teimlai'r panel ei fod yn ddogfen bryderus gyda nifer o gamau gweithredu ar gyfer y gwasanaeth.
- Cadarnhaodd swyddogion fod yr adroddiad wedi nodi nifer o faterion a heriau ond roeddent yn faterion yr oedd yr adran wedi'u rhagweld. Nodwyd rhai pethau cadarnhaol. Un o'r meysydd i'w gwella yw Sicrhau Ansawdd.
- Dywedodd swyddogion ei fod wedi bod yn gyfnod arbennig o heriol i gartrefi gofal ond bod yn rhaid iddynt wneud yn well i'r plant.
- Holodd y panel pam na ddarparwyd hyfforddiant ar-lein a pha mor aml yr eir ati i oruchwylio. Dylai goruchwyliaeth wybodus fod yn fisol ar gyfer staff llawn amser/rhan-amser a bob chwe wythnos ar gyfer staff hyblyg gan fod yn rhaid i'r staff hyn ymdrin ag amgylchiadau heriol yn rheolaidd. Darperir hyfforddiant ar-lein ond nid ar gyfer ehangder y pynciau y mae eu hangen ar gyfer y staff hyn.
- Cododd y panel bryder ei fod wedi cymryd AGC i dynnu sylw at y problemau ac nid y rheolwyr. Dywedodd swyddogion eu bod yn ymwybodol o lawer o bethau y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad ond roedd y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un anodd iawn o ran rhoi newidiadau ar waith yn ogystal ag ymdrin â phandemig a phroblemau gyda rheolwr y cartref. Y bwriad oedd bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn beth bynnag, ond ni wnaethpwyd hyn cyn ymweliad AGC.
- Diolchodd y panel i’r swyddogion am adroddiad nad oedd yn hawdd ei gyflwyno. Teimlai'r panel ei bod yn amlwg fod swyddogion yn gweithio'n systematig drwy'r cynllun gweithredu ac y bydd sylw yn awr ar Dŷ Nant.
- Bydd AGC yn cynnal ymweliad arall yn fuan. Camau gweithredu i'w cwblhau erbyn diwedd mis Medi. Mae swyddogion yn hyderus y bydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd.
- Caiff yr adroddiad ei ddwyn yn ôl i'r panel ar adeg briodol i sicrhau eu bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

Camau Gweithredu:

- 'Tŷ Nant - Diweddariad ar Gynnydd gyda'r Cynllun Gweithredu' i'w drefnu yn y rhaglen waith ar gyfer mis Hydref/Tachwedd 2021.

8 **Amserlen y Rhaglen Waith ar gyfer 2021-22**

Ystyriwyd y rhaglen waith gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm